Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Fabanod Wirfoddol Reoledig Dinbych-y-pysgod
Heywood Lane
Dinbych-y-pysgod
Sir Benfro
SA70 8BN

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Fabanod Wirfoddol Reoledig Dinbych-y-pysgod yn ysgol fabanod cyfrwng Saesneg gydag uned cyfrwng Cymraeg ynghlwm, wedi'i lleoli ar gyrion tref glan môr Dinbych-y-pysgod ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Benfro. Ar hyn o bryd, mae 202 o ddisgyblion rhwng tair a saith oed ar y gofrestr. Caiff saith deg tri y cant o ddisgyblion eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg a'r 27% arall drwy gyfrwng y Gymraeg.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle Saesneg yw'r brif iaith. Daw saith y cant o'r disgyblion o gartrefi lle caiff y Gymraeg ei siarad, ac ychydig iawn ohonynt sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol. Mae hawl gan wyth y cant o ddisgyblion i brydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 7% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Eto, mae hyn yn is o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Penodwyd y pennaeth presennol ym 1998, ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn Ysgol Fabanod Wirfoddol Reoledig Dinbych-y-pysgod yn 2013-2014 yw £3,624 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £6,304 a'r isafswm yw £3,270. Mae'r ysgol yn y 45ed safle o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da;
- mae perfformiad disgyblion yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda;
- mae'n darparu ystod eang o weithgareddau, sy'n cefnogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda;
- mae ansawdd yr addysgu'n dda at ei gilydd; ac
- mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol;
- mae uwch arweinwyr yn cydweithio'n dda i roi ymdeimlad o ddiben i'r ysgol;
- mae ethos tîm wedi'i sefydlu'n dda;
- mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn;
- mae arweinwyr a rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o safonau ac ansawdd yr addysgu; ac
- mae partneriaethau â rhieni yn gadarn.

## Argymhellion

A1 Gwella cyflwyniad gwaith disgyblion

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Darparu cyfleoedd mwy effeithiol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru

A4 Sicrhau bod marcio'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol fel bod disgyblion hŷn yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella

A5 Gwella'r systemau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau gwrando bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth yn darllen yn ystyrlon ac yn hyderus ar lefel sydd o leiaf yn cyd-fynd â'u hoed. Mae medrau llafar disgyblion yn dda at ei gilydd, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau Cymraeg a Saesneg yn siarad gyda hyder cynyddol. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau Saesneg yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn naturiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall disgyblion ysgrifennu'n effeithiol at ystod o ddibenion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn ffurfio eu llythrennau'n gywir nac yn cyflwyno'u gwaith yn dda.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n dda. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn ddealltwriaeth glir o rif a defnyddiant eu gwybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau syml mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn gallu casglu a chofnodi data syml yn effeithiol a dangos eu canfyddiadau mewn tablau a graffiau. Er enghraifft, nifer y sillafau yn eu henwau.

Gwna disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd da yn unol â'u gallu.

Yn yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion yn y deilliannau disgwyliedig ac uwch yn dangos tuedd at i fyny ac, yn gyffredinol, mae'n gyson well na pherfformiad ysgolion tebyg eraill a chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, roedd perfformiad mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn 2013 ychydig islaw ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Yn 2013, roedd ei pherfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim. Fe'i gosodwyd yn yr 50% uwch ar gyfer pob maes dysgu. Yn y deilliannau uwch yn 2013, fe wnaeth yr ysgol berfformio'n dda at ei gilydd o'i chymharu ag ysgolion eraill tebyg. Yn gyffredinol, perfformiodd bechgyn yn well na merched yn y deilliannau disgwyliedig yn 2013. Fodd bynnag, fe wnaeth merched berfformio'n well yn gyffredinol na'r bechgyn yn y deilliannau uwch na'r disgwyl. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a pherfformiad y rhai heb yr hawl honno.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi i gael cyngor neu i drafod unrhyw bryderon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall

pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd a gwneud dewisiadau priodol o ran yr hyn y maent yn ei fwyta a'i yfed er mwyn cadw'n iach.

Mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd ac yn dangos parch a gofal tuag at eraill. Maent yn feddylgar ac aeddfed wrth wneud penderfyniadau priodol ar gyngor yr ysgol a'r cyngor eco, ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned trwy godi arian a chymryd rhan mewn llawer o ddigwyddiadau cymdeithasol lleol fel y cyngerdd Nadolig yn y dref. Mae hyn yn datblygu eu medrau bywyd a chymdeithasol yn effeithiol.

Mae canran presenoldeb disgyblion yn gyson, sef tua 93%. Mae hyn wedi gosod yr ysgol yn yr 50% is dros y pum mlynedd diwethaf ac yn y 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda at ei gilydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod werthfawr o weithgareddau cwricwlwm sy'n cefnogi profiadau dysgu disgyblion yn dda. Mae tasgau a gweithgareddau'n ysgogi diddordebau disgyblion a'u symbyliad i ddysgu. Er enghraifft, rhoddodd ymweliad â'r goedwig gan ddisgyblion Blwyddyn 2 gyfleoedd gwerth chweil iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd drwy gasglu a dadansoddi data am feintiau 'esgidiau glaw'. Mae ystod gwerth chweil o weithgareddau allgyrsiol yn cefnogi datblygiad medrau a gwybodaeth disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn meithrin hyder a medrau cerddorol y disgyblion wrth berfformio i'r gymuned leol.

Mae cynllunio tymor hir a thymor canol yn datblygu'n briodol. Mae themâu fel 'Cyferbyniadau' yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng y dosbarthiadau Cymraeg a Saesneg. O ganlyniad, mae ymagwedd gynhwysfawr at gysondeb mewn cynllunio ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn ddigon strategol i sicrhau cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad y Gymraeg yn effeithiol, ac mae disgyblion yn datblygu eu medrau dwyieithog yn dda yn eu gweithgareddau bob dydd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru cystal.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, mae gweithgareddau fel archwilio dathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn hybu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill yn dda.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu'n dda at ei gilydd. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddealltwriaeth glir o'r Cyfnod Sylfaen a defnyddiant yr amgylchedd dan do ac awyr agored yn effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion. Maent yn cynllunio tasgau diddorol i sicrhau bod disgyblion yn dysgu medrau newydd ac yn ymarfer unrhyw fedrau sydd ganddynt eisoes mewn cyd-destunau gwahanol. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi esboniadau clir ac yn gofyn cwestiynau effeithiol sy'n annog disgyblion i ddysgu'n annibynnol a meddwl drostynt eu hunain. Mae'r holl athrawon a staff cymorth yn sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda'i gilydd a'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn gofyn cwestiynau Cymraeg syml yn effeithiol yn ystod gweithgareddau, sy'n annog disgyblion i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml yn hyderus yn eu hymateb. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnal sesiynau ar gyflymder priodol ac yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn ymroi'n dda i'w dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau asesu ymarferol yn briodol i gael cipolwg ar ba mor dda y mae disgyblion yn deall cysyniadau newydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u bodiau i ddangos pa mor dda y maent yn deall y tasgau. Mae athrawon yn defnyddio gweithdrefnau asesu ffurfiol rheolaidd yn effeithiol i lywio cynllunio. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio sylwadau ysgrifenedig clir i helpu disgyblion hŷn i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn rhoi gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae aelodau staff yn rhoi arweiniad a chymorth effeithiol i ddatblygu anghenion cymdeithasol, moesol ac emosiynol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn cael gofal da. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn briodol. Mae'r cyfleoedd i ddathlu llwyddiannau disgyblion a gweithgareddau ysgol gyfan eraill, er enghraifft pen-blwydd yr ysgol yn 60 oed, yn hybu ymdeimlad o falchder yn yr ysgol a'r gymuned leol, a chysylltiad â nhw. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni'n briodol yn nysgu'r plant drwy gysylltiadau effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae'n darparu gwybodaeth am fanteision diet iach a ffordd iach o fyw drwy amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae cyfleoedd priodol ar gyfer caniatáu i ddisgyblion wneud penderfyniadau drwy gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco. Er enghraifft, mae aelodau cyngor yr ysgol wedi cymryd rhan weithgar mewn darparu gwelyau uwch yn yr ardaloedd awyr agored, sy'n hybu dealltwriaeth dda o sut mae pethau'n tyfu.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu ystod o bolisïau a systemau i hyrwyddo presenoldeb da. Fodd bynnag, nid yw'r camau wedi cael amser eto i effeithio ar bresenoldeb disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn darparu trefniadau effeithiol i nodi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn arwain at gymryd rhan mewn ystod bwrpasol o raglenni ymyrryd, sy'n ategu dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae cysylltiadau cadarnhaol â gwasanaethau arbenigol fel therapi iaith a lleferydd yn darparu cymorth effeithiol pellach i ddisgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol gydag awyrgylch teuluol clos. Mae'r un mynediad gan ddisgyblion at bob gweithgaredd ni waeth beth yw eu rhyw, eu cefndir neu eu gallu. Mae'r ysgol yn trin disgyblion yn deg a gyda pharch, ac yn eu hannog i gydnabod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl o bob cefndir, diwylliant a ffydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali a diwylliant Hindŵaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y disgyblion o'r byd y maent yn byw ynddo.

Mae tu mewn yr adeiladau yn llachar a lliwgar ac yn cynnig amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu. Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu'n dda ac yn cynnwys arddangosfeydd celfydd o waith disgyblion. Mae mynediad da ar gyfer disgyblion ac oedolion anabl ac mae digon o adnoddau dysgu addas i gefnogi pob maes dysgu. Mae'r ardal allanol yn nodwedd nodedig o adnoddau'r ysgol ac mae'n hybu dysgu yn yr awyr agored yn dda. Mae'r adeiladau a'r tir yn ddiogel, yn lân ac yn cael eu cynnal i safon uchel. Fodd bynnag, mae'r dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg a ffurfiwyd yn ddiweddar yn fychan a phrin yw'r lle i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwarae sionc neu fywiog.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain ysgol lle mae pob disgybl yn bwysig ac yn cael cefnogaeth dda i lwyddo. Mae staff, rhieni a llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon.

Mae uwch arweinwyr yn cydweithio'n dda i roi ymdeimlad clir o ddiben i'r ysgol. Er enghraifft, mae'r dirprwy bennaeth wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu cynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael ystod eang o brofiadau sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar eu medrau, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu.

Mae gan yr ysgol ethos tîm sefydledig lle caiff yr aelodau staff eu gwerthfawrogi'n fawr ac mae datblygiad proffesiynol yn cael lle amlwg ar yr agenda. Er enghraifft, mae'r athro arweiniol yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg yn rhannu arfer dda o ran

defnyddio TGCh at ddiben asesu ac mae athro dosbarth Blwyddyn 2 yn hyfforddi staff cymorth ar ddefnyddio Cymraeg achlysurol. Caiff staff eu hannog i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau newydd a chaiff arweinyddiaeth ei datblygu'n effeithiol ar bob lefel. Er enghraifft, mae aelod staff cymorth yn cydlynu darpariaeth anghenion ychwanegol yr ysgol yn effeithiol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ba mor dda mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg ac o'r cynnydd a wna disgyblion o ganlyniad i fentrau. Mae llywodraethwyr yn dangos diddordeb brwd yn yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd, gan gymryd rhan mewn gwasanaethau dathliadol ac ymweld â dosbarthiadau. Mae hyn yn helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth ac mae'n rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn iddynt i herio'r ysgol ynghylch yr hyn mae'n ei wneud. Mae llai o gysylltiad gan lywodraethwyr wrth weithio gyda'r ysgol i ddatblygu ei chyfeiriad strategol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus, er enghraifft sicrhau bod safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn dda a gwneud y mwyaf o'r awyr agored i ategu dysgu disgyblion. Mae wedi gwneud dechrau priodol ar weithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gywir o safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Maent yn dadansoddi data ar berfformiad yn ofalus i nodi pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni ac i werthuso llwyddiant mentrau. Mae'r ysgol yn arbennig o lwyddiannus wrth ddefnyddio data i nodi a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn monitro pob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol yn ddigon systematig. O ganlyniad, nid ydynt yn glir, er enghraifft, ynghylch pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu ymdeimlad disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru neu safonau disgyblion mewn TGCh.

Mae defnyddio gwybodaeth uniongyrchol o arsylwadau dosbarth a chraffu ar lyfrau yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn ddigon rheolaidd i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i lywio hunanarfarnu. Mae'r dirprwy bennaeth a'r ymarferwr arweiniol yn y ffrwd Gymraeg yn monitro cynllunio'r athrawon yn rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at fwy o gysondeb mewn cynllunio ac wedi gwella cysondeb y profiadau dysgu ar draws yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i geisio barn rhanddeiliaid, fel rhieni a disgyblion, i lywio hunanarfarnu yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn llunio dogfen hunanarfarnu flynyddol fanwl. Mae'r ddogfen hon yn addysgiadol ac yn defnyddio data'n dda i nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i fynd i'r afael â'r meysydd hyn yr un mor effeithiol. Er enghraifft, mae gormod o dargedau ac nid yw'r ysgol wedi nodi llawer ohonynt yn y ddogfen hunanarfarnu bresennol. Nid oes terfynau amser ar gyfer cwblhau targedau, felly mae'n anodd blaenoriaethu camau gweithredu. Nid yw targedau bob amser yn ddigon manwl gyda ffocws clir ar ddeiliannau i ddisgyblion. Er gwaethaf y diffygion hyn mewn cynllunio strategol, mae gan yr ysgol hanes da o gynnal a gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae wedi gwella medrau darllen, ysgrifennu a medrau

personol a chymdeithasol disgyblion ac ansawdd yr addysgu dros y blynyddoedd diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn gadarn. Mae polisi drws agored yr ysgol a pharodrwydd y pennaeth a'r staff i wrando ar rieni a'u pryderon wedi magu cryn ymddiriedaeth dros sawl blwyddyn. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleuster gofal cofleidiol i'w disgyblion tair oed, rhan-amser, sy'n cynorthwyo rhieni sy'n gweithio yn dda.

Mae gan gymuned Dinbych-y-pysgod feddwl mawr o'r ysgol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn mentrau cymunedol fel 'Dinbych-y-pysgod yn ei Blodau' yn rheolaidd, ac yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Garolau'r dref adeg y Nadolig. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Gwneir defnydd da o gyfleusterau cymunedol, fel y llyfrgell leol a gorsaf y bad achub, i gyfoethogi dysgu'r disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u bro.

Hefyd, mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid eraill, fel y clwstwr lleol o ysgolion a'r eglwys leol. Mae'r partneriaethau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella deilliannau i ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r ficer lleol yn gweithio mewn partneriaeth effeithiol â'r ysgol i gynllunio sesiynau cyd-addoli rheolaidd yn gysylltiedig â chwricwlwm personol a chymdeithasol yr ysgol. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth disgyblion o werthoedd pwysig, fel diolchgarwch. Nid yw'r bartneriaeth â'r ysgol iau leol wedi'i datblygu'n llawn eto.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r cyllid sydd ar gael iddi ac mae'n rheoli ei chyllideb yn dda.

At ei gilydd, caiff staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu eu defnyddio'n effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u medrau a'u harbenigedd. Mae'r rheolaeth ar berfformiad y staff yn bodloni gofynion statudol ac mae cymorth a datblygiad da iawn i staff wneud cynnydd a gwella'u medrau. Er enghraifft, mae un cynorthwyydd addysgu o'r ysgol wedi cymhwyso'n athro ac mae dau arall wedi dod yn gynorthwywyr addysgu lefel uwch. Mae'r holl staff parhaol wedi mynychu hyfforddiant ar addysgu darllen ac ysgrifennu. O ganlyniad, mae safonau disgyblion yn gwella. Mae trefniadau da ar waith i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn defnyddio'i hadeiladu'n effeithlon. Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan, yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynorthwyo dysgu a lles disgyblion.

Mae staff yn cynllunio gyda'i gilydd yn rheolaidd ac yn rhannu syniadau a ffyrdd o weithio. Mae cymunedau dysgu proffesiynol yn datblygu'n briodol ac wedi cynyddu dealltwriaeth aelodau unigol o'r staff ynghylch agweddau fel addysgu sillafu. Yng ngoleuni'r ffaith bod deilliannau disgyblion yn dda a bod llawer o gryfderau yn y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion ar y deiliannau disgwyliedig ac uwch yn dangos tuedd at i fyny ac, yn gyffredinol, mae'n gyson well na lefelau perfformiad eraill yn y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Eithriad i hyn yw datblygiad personol a chymdeithasol lle'r oedd perfformiad yr ysgol yn 2013 ychydig islaw lefelau perfformiad ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru.

Yn 2013 ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r deilliannau disgwyliedig ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim. Roedd yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg a datblygiad mathemategol.

Yn y deilliannau uwch yn 2013, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer perfformiad mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg a datblygiad mathemategol, yn yr 50% uwch ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg ac yn yr 50% is ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

At ei gilydd, perfformiodd bechgyn yn well na merched yn y deilliannau disgwyliedig yn 2013. Fodd bynnag, perfformiodd merched yn well yn gyffredinol na bechgyn yn y deilliannau uwch na'r disgwyl. Nid yw disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio'n wahanol iawn i'r rhai nad oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cafwyd llai na 10 ymateb. Ni ddangosir unrhyw ddata.

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 53 | 40 | 13 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 53 | 44 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 52 | 41 | 10 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 79% | 19% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 52 | 40 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 77% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 52 | 35 | 8 | 1 | 0 | 8 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 67% | 15% | 2% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 53 | 39 | 11 | 0 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 74% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 52 | 39 | 12 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 75% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 52 | 28 | 18 | 0 | 0 | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 54% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 52 | 40 | 9 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 77% | 17% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 53 | 37 | 15 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 70% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at school. | 53 | 40 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 45 | 26 | 11 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 58% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 52 | 27 | 20 | 3 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 52% | 38% | 6% | 2% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 53 | 36 | 15 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 68% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 53 | 27 | 20 | 3 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 51% | 38% | 6% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 52 | 35 | 15 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 67% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 47 | 25 | 12 | 1 | 1 | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 26% | 2% | 2% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 52 | 35 | 15 | 0 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 67% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 52 | 35 | 14 | 0 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 67% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Beverley Jenkins | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gillian Cheverton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gill John | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | **Meithrin** | **Derbyn** | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.